# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24 IONAWR 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **DEWI A MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| **Rhif Cyswllt:** | **34684** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio Perfformiad a gynhaliwyd ar 21ain Rhagfyr, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol.

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiect blaenoriaeth yr Adran.

### 2.2 Cyflawni Arbedion

2.2.1 Yn unol â phenderfyniadau blaenorol y Cabinet a'r Cyngor llawn, mae gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion wedi eu tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23.

2.2.2 Cyhoeddwyd y setliad refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022. Yn unol â'r disgwyl mae'r setliad hwn yn is na'r hyn sydd ei angen i ymdrin â chwyddiant, ond mae'n well setliad na'r hyn roeddem wedi ei ofni.

2.2.3 Er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar 2023/24 bydd angen adnabod arbedion ychwanegol ac mae camau yn eu lle i wneud hyn. Mae tri gweithdy wedi cael eu cynnal yn Rhagfyr ac Ionawr er mwyn blaenoriaethu'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

2.2.4 Yn hanesyddol, mae rhai o'r cynlluniau arbed sydd wedi llithro yn rhai sydd wedi profi i fod yn anodd iawn eu gwireddu, ond rhaid cofio fod amseru yn ffactor hefyd. Rydym wedi defnyddio rhai o'n cronfeydd i oedi ambell un o'r cynlluniau arbed hyn a phontio'r bwlch cyllidebol, ond nid yw defnyddio cronfeydd yn ateb parhaol.

2.2.5 Mae'r symiau perthnasol eisoes wedi cael eu tynnu allan o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23; mae adolygiadau ffurfiol wedi cael eu cynnal ar ddiwedd Awst 2022 a Tachwedd 2022 ac mae unrhyw orwariant wedi cael ei amlygu a'i drafod gyda'r adrannau. Mae adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno mewn eitem ar wahân ar raglen cyfarfod Cabinet heddiw.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers cyflwyno'r adroddiad cynnydd ddiwethaf ym mis Medi. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**3.2** **Gwasanaeth Archwilio Mewnol.** Yn ôl yr arfer, bu Archwilio Mewnol yn treulio misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol yn cwblhau archwiliadau ar ran cleientiaid allanol, 4.48% o'r Cynllun Blynyddol 2022/2023 oedd wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin. Rwyf yn falch o adrodd fod gwaith y gwasanaeth ar gynllun archwilio Cyngor Gwynedd wedi cyflymu'n sylweddol erbyn hyn – hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2022, llwyddwyd i gwblhau 43% o gynllun blynyddol 2022/23. Mae hyn yn cynrychioli 21 archwiliad allan o 49, a bydd amryw o adroddiadau eraill wedi cael eu cyhoeddi yn derfynol ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r gwasanaeth yn hyderus y bydd modd cwrdd â'i dargedau o fewn y flwyddyn.

**3.3** **Gwasanaeth Budd-daliadau.** Mae'r gwasanaeth wedi gallu parhau i berfformio yn erbyn ei fesurau cyflawni craidd, sef y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal, a'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau. Serch hynny, mae cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd ar gyfer mis Tachwedd yn 24.10 diwrnod sy'n dangos dirywiad i'w gymharu yn erbyn yr un cyfnod yn 2021/22, sef 20.72 diwrnod. Mae hyn yn ganlyniad gyfuniad dros dro o swyddi gwag a salwch hir-dymor, ond hefyd y gwaith ychwanegol o brosesu taliadau tanwydd gaeaf yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith ar y cynllun yma yn dirwyn i ben erbyn hyn, a bydd modd ail-gyfeirio adnoddau yn ôl i'r gwaith prosesu ceisiadau budd-dal.

Mae gennyf beth pryder fod y gwasanaeth wedi colli profiad sylweddol gydag ymddeoliad swyddogion ac eraill yn gadael swydd, ond yn falch o adrodd brwdfrydedd y gwasanaeth i gymryd rhan gynnar mewn dau gynllun corfforaethol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, sef Cynllun Datblygu'r Gweithlu a'r Chynllun Meithrin Talent.

**3.4** **Gwasanaeth Incwm a Dyledion.** Mae maint yr ôl-ddyledion sydd dros 6 mis oed yn parhau i gynyddu ac yn sefyll yn £1,921,780 ar 30 Tachwedd (ond wedi addasu am ddyledion y Bwrdd Iechyd mae'r cyfanswm yn gostwng i £1,406,971). Dylid nodi fod gwerth £493K o ddyledion am ofal yn gynwysedig yn y swm yma, ac mae'r rhain angen triniaeth ad-ennill mwy sensitif na'r arferol.

**3.5** **Gwasanaeth Pensiynau.** Rwyf yn fodlon â pherfformiad y Gwasanaeth Pensiynau. Adroddais yn yr adroddiad diwethaf bod y maes arbenigol hwn yn un o'r rhai lle gall recriwtio a chadw staff fod yn gonsyrn. Rwyf yn falch o adrodd fod y sefyllfa wedi gwella dros y misoedd diwethaf ac mae pob swydd (parhaol a dros dro) wedi ei lenwi erbyn hyn.

**3.6** **Gwasanaeth Trethi.** Adroddais yn yr adroddiad blaenorol fod y Gwasanaeth wedi cynorthwyo i ddosbarthu taliadau Cymorth Costau Byw o £150 yr un i 39,486 o aelwydydd cymwys o fewn Gwynedd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Erbyn hyn gallaf gadarnhau fod £431,700 pellach wedi ei ddosbarthu, sef £150 yr un i 2,878 aelwyd ychwanegol, trwy'r cynllun dewisol a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 25 Hydref.

Erbyn diwedd Tachwedd, roedd y gyfradd gasglu Treth Cyngor yn 72.85%, sydd ychydig yn is nag yr oedd yr un pryd yn 2021 (74.73%). Yn yr un modd, rodd cyfradd gasglu Ardrethi Annomestig erbyn diwedd Tachwedd yn 72.85%, sydd hefyd yn is na'r un cyfnod yn 2021 (74.73%).

Mae Trethi yn wasanaeth arall ble mae recriwtio a chadw staff wedi bod yn broblem gynyddol, ond gallaf adrodd fod pob swydd wedi ei llenwi ar 21 Rhagfyr 2022. Er hynny, bydd yn cymryd peth amser i hyfforddi staff newydd yn yr arbenigeddau angenrheidiol.

Adroddais i'r Cabinet ym mis Medi fod y Gwasanaeth wedi comisiynu adolygiad o'r galw gyda chymorth y Tîm Ffordd Gwynedd. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ond mae nifer o bwyntiau eisoes wedi codi sydd wedi eu cyfeirio i sylw'r Rheolwr Trethi a'r Pennaeth Cyllid am ystyriaeth bellach.

**3.7** **Gwasanaethau Cyllid a Chyfrifeg / Taliadau.** Nodais yn fy adroddiad ym mis Medi fod y Gwasanaeth wedi llwyddo i gwblhau pump set o Ddatganiadau o Gyfrifon 2021/22 yn amodol ar archwiliad (cyfrifon Cyngor Gwynedd, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Harbyrau) yn amserol yn ystod Mai a Mehefin. Erbyn hyn mae pob un wedi cael ei gyhoeddi'n derfynol yn dilyn archwiliad, ag eithrio cyfrifon Cyngor Gwynedd ble bu oedi oherwydd mater technegol cenedlaethol oedd yn effeithio ar yr archwiliadau o ddatganiadau cyfrifon pob un o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r mater hwnnw wedi ei ddatrys gan Lywodraeth Cymru a bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Cyfrifon Terfynol ar 26 Ionawr.

Mae'r Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg wedi treulio cyfran helaeth o amser yn paratoi cyllideb 2023/24 ac yn ystyried oblygiadau'r setliad refeniw a chyfalaf ar gyfer cyllideb 2023/24. Ar yr un pryd mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw i sefyllfa gyllidebol 2022/23; mae adroddiadau i'r perwyl yma yn ymddangos fel eitemau ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.

Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth hefyd wedi nodi peth rhwystredigaeth mewn derbyn anfonebau yn amserol gan weddill y Cyngor er mwyn eu prosesu i'w talu. Mae'r Gwasanaeth mewn trafodaethau gyda gwahanol adrannau er mwyn ceisio cyflymu pethau a chyflwyno gweithdrefnau mwy llyfn er mwyn talu cyflenwyr yn gyflymach.

**3.8 Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth – Isadeiledd.** Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n ddygn i gynnal a chryfhau gwytnwch systemau'r cyngor. Rwyf yn falch o adrodd bod argaeledd y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel iawn a ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad o ymyrraeth difrifol i'r gwasanaeth. Dangosodd y rhwydwaith craidd argaeledd o 99.99% ym mis Tachwedd, gyda'r systemau critigol hefyd yn arddangos argaeledd o 99.99%. Yn ogystal â'r gwaith rhagorol o gefnogi'n systemau, fe gyflawnwyd sawl prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys uwchraddio'r cyswllt rhwydwaith i'r ail ganolfan ddata. Bu'r gwasanaeth yn treulio cyfran helaeth o'u hamser yn y chwarter diwethaf yn diweddaru systemau yr ysgolion.

**3.9 Gwasanaeth TG – Datblygu.** Rwyf yn falch o adrodd fod y tîm wedi bod yn llwyddiannus gyda'i ymdrechion diweddar i lenwi swyddi gwag yn dilyn cyfnod rhwystredig o fethu penodi. Bydd hyn yn gymorth mawr gyda'r gwaith o ddatblygu a chynnal systemau i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor.

**3.10 Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Rwyf yn awyddus fod holl wasanaethau'r Cyngor yn rhoi mwy o adborth i'r Gwasanaeth Cefnogol fel bod modd iddo barhau i roi o'i orau. O'r 1850 o alwadau am gymorth a gaewyd yn ystod y cyfnod, dim ond 72 nodyn adborth a dderbyniwyd yn ôl. Fodd bynnag, o'r rhai a wnaeth ymateb, rhoddwyd adborth positif iawn (97% "Bodlon Iawn" a 1.5% "Bodlon"). Dim ond un ymateb oedd yn "Anfodlon Iawn", ac mae datrysiad parhaol amgen nawr wedi cael ei roi yn ei le mewn ymateb i'r adborth yma.

**3.11 Gwasanaeth TG – Rheolaeth Rhaglen.** Un o prif brosiectau y tîm yma yn ystod y cyfnod oedd paratoi ystafelloedd cyfarfod hybrid, ond bu llithriad yn y rhaglen. Disgwylir erbyn hyn bydd y prosiect wedi cael ei gwblhau yn gynnar yn 2023.

O safbwynt **argaeledd systemau allanol**, bu peth trafferth yn ystod y cyfnod gydag argaeledd y system WCCIS (Gofal) oherwydd gwaith cynnal a chadw rhaglenedig gyda'r canlyniad o rwystro mynediad i'r system gyda'r nos. Cywirwyd y diffyg yn syth yn y bore. Gallaf sicrhau fy nghyd-aelodau na fu digwyddiad oherwydd y diffyg argaeledd yma, ac mae gwaith wedi ei gwblhau i adnabod camau amgen er mwyn osgoi'r sefyllfa yn y dyfodol.

**3.12 Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Mae hwn yn wasanaeth newydd sydd yn parhau i sefydlu a "ffeindio ei draed". Mae darpariaeth sylweddol wedi ei wneud i gyflenwi gliniaduron yn ein ysgolion cynradd ac uwchradd a rhaglen yn ei le i barhau â'r ddarpariaeth yn yr uwchradd gan gyflenwi 500 gliniadur y mis i wireddu gweledigaeth y strategaeth ddigidol o gyflwyno gliniadur i pob disgybl blwyddyn 3 hyd 11. Mae'r swyddogion yn y tîm yma yn llai profiadol na staff rhai o'r timau eraill ond maent yn datblygu'n gyflym. O ran adnabod patrymau, gwelwyd fod oddeutu hanner y galwadau yn ganlyniad i hen gyfarpar yn yr ysgolion – bydd y sefyllfa yma yn gwella dros amser.

**4. ARBEDION ADRANNOL**

4.1 Mae'r adran wedi cyflawni ei holl gynlluniau arbed ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2021/22. Mae un cynllun arbed yn parhau o fewn rhaglen 2022/23, sef *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol*. Nid wyf yn rhagweld erbyn hyn bydd y cynllun am wireddu'r targed arbedion o £25k felly mae'r Adran yn edrych am gynllun amgen.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma, ac yn cadarnhau'r cynnwys.